Y Tangnefeddwyr

(dewrder / gweledigaeth / penderfyniad / gweithio o blaid heddwch)

Pedair ar bymtheg oed oedd Roger Love pan ymunodd â'r Lluoedd Amddiffyn yng Ngogledd Iwerddon. Pan welodd Reatha Hassan, y swyddog recriwtio, ef am y tro cyntaf meddai wrtho, "Efo dannedd mor lân a pherffaith â'ch rhai chi fe ddylech fod yn hysbysebu pâst dannedd." O'r munud hwnnw daeth Roger yn ffefryn gan bawb yn y gymuned ym Markethill yn Ne Armagh.

Blwyddyn union yn ddiweddarach cafodd Hassan alwad ffôn yn dweud fod bom wedi ffrwydro o dan Land Rover y fyddin. Roger oedd y gyrrwr ac roedd wedi'i anafu'n ddifrifol. Bu Hassan gyda'r teulu wrth wely Roger am dridiau cyn iddo farw. "Roedd wedi ei anafu'n ddrwg iawn. Drwy'r adeg roeddwn i'n cofio'r tro cyntaf wnaethon ni gyfarfod a chofio am y wên fendigedig yna. Roeddwn i, a'i deulu yn gobeithio y byddai'n gwella o'i glwyfau. Ond nid felly y bu. A dweud y gwir doedd yna ddim gobaith o gwbl iddo."

Penderfynodd Reatha Hassan ei bod am newid ei byd. Er bod dros drigain o'i chyd-weithwyr wedi'u lladd yn y terfysg yng Ngogledd Iwerddon roedd marwolaeth Roger a'i wên hudolus wedi taro nerf yn ei bywyd.

Trodd ei chefn ar y swyddfa recriwtio a symudodd i adran les y fyddin. Ei phriod waith yma oedd helpu a chynghori teuluoedd mewn profedigaeth. Bu'n gweithio'n galed gyda'r teuluoedd bob awr o'r dydd am chwe blynedd cyn ymddeol. Ond sut y gallai hi ymddeol a chynifer o deuluoedd yn dioddef? Felly, ym 1999, hi oedd sylfaenydd SAVER (South Armagh Victims Encouraging Recognition) a hefyd NAVER (North Armagh Victims Encouraging Recognition).

Ei nod yw nid yn unig helpu'r dioddefwyr ond hefyd ceisio creu cymod rhwng cymunedau'r Cenedlaetholwyr a'r Unoliaethwyr yn Armagh. "Cyn i'r trafferthion ddechrau yn y rhan hon o'r wlad roedd y ddwy ochr yn gyfeillion ac yn gallu cyd-fyw ond, erbyn hyn, mae gelyniaeth a diffyg ymddiriedaeth rhwng y ddwy ochr. Yr hyn rydw i'n ceisio'i wneud ydi dod â'r ddwy ochr yn nes at ei gilydd."

Mae SAVER/NAVER yn gweithio gyda dros 500 o bobl ar draws Armagh trwy gynnig cysur i'r rhai sydd wedi colli anwyliaid a

sicrhau cefnogaeth i deuluoedd sydd mewn angen. Mae hefyd yn cynnig ailhyfforddiant i bobl sydd wedi eu hanafu yn y brwydro a'r bomio trwy gynnig cyflogaeth wahanol, e.e. trin technoleg gwybodaeth neu ddreifio lorïau a faniau.

"Gan fod yr IRA erbyn hyn wedi penderfynu gwaredu eu harfau mae'r gobaith am heddwch yn fwy real heddiw nag erioed. Felly, er mwyn gwireddu'r freuddwyd mae'n rhaid bod yn sensitif iawn gan nad ydi pawb yn barod i faddau i'w gilydd. Ond mae'r mwyafrif o bobl yn gwybod fod pob mam, boed Genedlaetholwraig neu'n perthyn i'r Unoliaethwyr, sydd wedi colli mab neu ferch yn y brwydro, yn gwybod mai'r un ydi'r dagrau."

Project diweddaraf Reatha ydi creu gardd ym Markethill i gofio am y 3,600 sydd wedi'u lladd a'r 40,000 sydd wedi'u hanafu yn y brwydrau. "Mae'n rhaid i mi ddal ymlaen. Yma mae fy ngwaith i erbyn hyn. Am y tro cyntaf ers blynyddoedd mae yna heddwch. Mae'n rhaid i ni i gyd geisio adeiladu ar hwnnw yn awr, er mwyn creu gwell dyfodol."

Adnod: "Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd cânt hwy eu galw'n blant i Dduw." Mathew 5: 9

Gweddi: Diolch i ti, O Dduw, am bobl fel Reatha Hassan, sy'n barod i aberthu ei hymddeoliad i weithio'n galed drosot ti yn ei chymuned. Amen.

Trafod:

- Pa nodweddion sy'n perthyn i'r wraig hon? Rhestrwch rai ohonyn nhw.
- Beth, yn eich barn chi, fedr un wraig wedi ymddeol ei wneud yn ei chymuned i hyrwyddo heddwch ymhlith y bobl?